

**Amodau Gwaith**

# Rheolau Cyflenwi: Gweithredu Prin Gyflenwi

**UCAC** | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

# Rheolau Cyflenwi: Gweithredu Prin Gyflenwi

## 1. Cefndir

Daeth gofyniad statudol i rym ar 1 Medi 2009, mai dim ond yn anaml y bydd athrawon yn gwneud gwaith cyflenwi yn lle cydweithwyr. Ond beth yw ystyr y rheol Prin Gyflenwi (*Rarely Cover*) a'r cymal "adegau prin" (*only rarely*)?

Ers y cychwyn, ar gyfer Prin Gyflenwi, mae'r pwyslais ar sefyllfaedd na ellir eu rhagweld. Ni ddylai unrhyw athro gyflenwi ar gyfer cydweithiwr os oes modd rhagweld yr absenoldeb.

## 2. Rhagweladwy ac anrhagweladwy

### Beth sy'n rhagweladwy (*foreseeable*)

"I'r ysgol, mae 'amgylchiadau y mae modd eu rhagweld,' yn cynnwys

- digwyddiadau y mae modd eu rhagweld ar sail profiad hanesyddol;
- digwyddiadau y mae modd eu rhagweld o ran y profiad lleol arferol; a
- digwyddiadau y mae modd eu disgwyl fel rhan o batrwm esblygol y ddarpariaeth." \*

\* Adran 4, Para. 51 – Dogfen Cyflog ac Amodau Gwaith Athrawon Ysgol 2012

Dylai'r Pennaeth ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael yn yr ysgol am batrymau absenoldeb yn y blynyddoedd cynt.

Mae pob un o'r digwyddiadau canlynol yn enghraifft o absenoldeb rhagweladwy (hyd yn oed os nad oes dyddiad pendant ar gael cyn cychwyn y flwyddyn ysgol):

- cyfarfodydd amrywiol e.e. safoni gwaith disgyblion, pontio cynradd/uwchradd, adolygu datblygiad proffesiynol (rheoli perfformiad), cyfarfodydd clwstwr
- cystadlaethau amrywiol e.e. chwaraeon, cerddoriaeth, siarad cyhoeddus, Eisteddfodau Cylch a Sir yr Urdd
- teithiau blynyddol (undydd neu hirach), e.e. gwaith maes pynciau amrywiol; tripiâu ac ymweliadau
- sioe neu gyngerdd yr ysgol
- arholi ar gyfer Cyrff Dyfarnu
- arolygu ar gyfer Estyn

- cyrsiau lleol a chenedlaethol (cyrsiau'r Awdurdod Lleol, CBAC, Consortia ac ati)
- absenoldeb am resymau personol pan fydd yr athro wedi rhybuddio'r ysgol ymlaen llaw, e.e. apwyntiad ysbyty, absenoldeb gyda chaniatâd i ofalu am aelod o'r teulu, cyfweiliad swydd
- mynediad i'r ysbyty am lawdriniaeth sydd wedi'i threfnu ymlaen llaw
- absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu neu absenoldeb rhieni ar y cyd (*shared parental leave*)
- cyfnod secondiad
- yr ail ddiwrnod o absenoldeb yn dilyn diwrnod o absenoldeb annisgwyl
- gellir dadlau bod unrhyw ddiwrnod o absenoldeb salwch yn rhagweladwy (o ystyried patrymau hanesyddol)

Bydd disgwyl i'r ysgol drefnu cyflenwi ar eu cyfer, ymlaen llaw. Ni ddylai athro yn yr ysgol gyflenwi.

### **Beth sy'n anrhagweladwy (h.y sefyllfaoedd na ellir eu rhagweld)?**

Mae'n debygol mai'r unig sefyllfaoedd sydd wir yn anrhagweladwy yw'r diwrnod cyntaf o absenoldeb oherwydd damwain, salwch annisgwyl neu argyfwng personol. Dyma adegau pan fydd rhaid i aelod o staff adael yr ysgol ar frys.

Dylai'r ysgol ystyried pob cam posibl a gwneud pob ymdrech i sicrhau nad oes angen i athro yn yr ysgol gyflenwi.

Os nad yw'n bosibl trefnu cyflenwi ar gyfer y wers/gwersi cyntaf o absenoldeb, dylai fod yn bosibl gwneud trefniadau priodol ar gyfer gweddill gwersi'r diwrnod.

Ar ôl y diwrnod cyntaf o absenoldeb anrhagweladwy, dylid cyfrif bod yr absenoldeb yn rhagweladwy nes bod yr athro'n dychwelyd i'r gwaith; ni ddylai athro yn yr ysgol gyflenwi.

### **3. Cyfrifoldebau athrawon yr ysgol**

Mae'n parhau'n rhan o gyfrifoldeb athro i gyflenwi, ond dim ond ar adegau prin o dan amgylchiadau annisgwyl (anrhagweladwy).

Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i'r Pennaeth, Dirprwy Bennaeth a Phenfaeth Cynorthwyol; maent yn berthnasol i athrawon sydd ar gytundeb parhaol, cyfnod penodol neu fyr dymor a *pro rata* ar gyfer athrawon rhan amser.

Nid ydyw'n gyfreithlon i ddefnyddio athrawon i gyflenwi yn ystod eu cyfnodau Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA).

Nid yw rheol Prin Gyflenwi yn berthnasol i athrawon sy'n cael eu cyflogi'n benodol at bwrpas cyflenwi.

#### 4. Strategaethau rheoli cyflenwi (awgrymiadau o Ddogfen 2012)

##### Athrawon Cyflenwi

Gellir defnyddio athrawon cyflenwi ar gyfer **pob math o absenoldeb**.

Mewn achos o absenoldeb tymor canolig, bydd angen sicrhau bod athro cyflenwi **cymwysedig** addas wedi'i (h)apwyntio dros dro (neu o ddydd i ddydd) i addysgu'r pwnc. Bydd angen i bob ysgol wneud defnydd priodol o athro cyflenwi cymwysedig addas mewn achos o absenoldeb hir dymor.

##### Athrawon wedi'u cyflogi (yn bennaf neu'n gyfan gwbl) at bwrpas cyflenwi "*floating teachers*"

Nid oes cyfyngiad ar oriau cyflenwi athrawon sydd wedi'u cyflogi (yn bennaf neu'n gyfan gwbl) at bwrpas cyflenwi.

##### Arolygu (*Cover supervision*)

Mae'n gyfreithlon defnyddio pobl nad ydynt yn athrawon cymwysedig (e.e. Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU)) i arolygu ar gyfer absenoldeb **byr dymor yn unig**, ond mae amodau i hyn:

*"Yn ystod y cyfnod cyflenwi, i'r graddau y bydd pobl o'r fath yn ymwneud â gwaith penodedig, rhaid iddynt weithredu yn unol â'r rheoliadau a wnaethpwyd dan adran 133 Deddf Addysg 2002 a chanllawiau ategol."*

(Adran 4, Para. 85 - Dogfen 2012)

Mae'n gyfrifoldeb ar y Pennaeth i sicrhau bod unrhyw berson a ddefnyddir yn y modd yma wedi derbyn hyfforddiant addas, yn enwedig o ran rheoli ymddygiad disgyblion. Mae hyfforddiant o'r fath yn angenrheidiol.

Mae Dogfen 2012 yn awgrymu bod y defnydd o berson i arolygu yn y modd yma yn fwy effeithiol pan fo gwaith wedi'i osod ar gyfer y disgyblion neu lle mae modd i'r disgyblion weithio'n annibynnol. Mae'r Ddogfen yn pwysleisio na ddylid gosod pwysau ychwanegol gormodol ar athrawon i baratoi, cynllunio ac asesu. Awgrymir datblygu banciau o waith at y pwrpas a/neu apwyntio arolygydd/goruchwylydd (*cover supervisor*) i Flwyddyn, Adran neu Gyfadran.

**Cred UCAC mai dim ond athrawon cymwysedig ddylai fod â gofal dosbarth cyfan.** Gwaith athrawon yw addysgu; gwaith cynorthwywyr yw cynorthwyo.

### **Beth am weithgareddau addysgu tu allan i'r dosbarth?**

Cred UCAC mai presenoldeb yr athro pwnc/dosbarth sy'n caniatáu'r gwerth gorau i gyfleoedd addysgiadol. Os nad yw athro'r dosbarth yn bresennol ar gyfer ymweliad â'r theatr, cyngerdd, gwaith maes neu chwaraeon, nid oes modd cael trafodaeth lawn am y profiad ar ôl dychwelyd i'r ysgol.

Mae'r un peth yn wir am lawer o feysydd - heb arbenigedd yr athro perthnasol, nid oes modd manteisio ar yr holl gyfleoedd addysgiadol sydd ynghlwm â'r gweithgaredd.

### **A oes hawl defnyddio Amser a Enillwyd (*Gained Time*) ar gyfer cyflenwi?**

Ni ddylid defnyddio Amser a Enillwyd ar gyfer cyflenwi. Rhwng 2009 a 2012 nodwyd yn y Ddogfen restr o dasgau y byddai'n rhesymol i Bennaeth gyfarwyddo athro i'w cyflawni yn ystod amser a enillwyd, ond **nid yw cyflenwi ar gyfer cydweithwyr yn un ohonynt.**

Crynodeb o brif gyfrifoldebau'r Pennaeth:

- Llunio polisi clir a chreu cyfundrefn gadarn i sicrhau nad yw athrawon ond yn cyflenwi pan nad oedd modd rhagweld yr absenoldeb
- Sicrhau bod unrhyw gyflenwi am ddigwyddiadau nad oes modd eu rhagweld yn cael ei rannu'n deg rhwng holl athrawon yr ysgol, gan gynnwys y Pennaeth a bod athrawon rhan amser yn cael eu defnyddio *pro rata* at bwrpas cyflenwi
- Diogelu amser CPA, gan fod amser CPA yn rhan o amodau gwaith cytundebol athrawon, ac nid oes hawl ei ddefnyddio at unrhyw bwrpas arall
- Sicrhau bod athrawon sydd ar gytundeb parhaol, cyfnod penodol neu fyr dymor yn derbyn yr un driniaeth o ran Prin Gyflenwi,
- Monitro a dadansoddi patrwm absenoldebau (sydd wedi'u cynllunio ac sydd heb eu cynllunio) a lefelau cyflenwi, a rheoli'r rhain yn briodol
- Rheoli absenoldebau, er mwyn lleihau'r effaith ar ddisgyblion
- Sicrhau bod yr aelod o staff sy'n gyfrifol am weinyddu trefniadau cyflenwi yn cadw cofnod o faint o gyflenwi a gyflawnir gan bob athro (a staff eraill, os yn berthnasol)

- Yn dilyn ymgynghoriad gyda staff a'r undebau, cyhoeddi (ar ddechrau'r flwyddyn ysgol) amserlen a chalendr o ddigwyddiadau'r flwyddyn, a chynllunio unrhyw newidiadau *ymhell o flaen llaw* ("well in advance").

Dylai'r calendr nodi'r digwyddiadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn addysgol, e.e. ymweliadau addysgiadol, nosweithiau rhieni, diwrnodau HMS, safoni, ac ati.

Gellir gwneud newidiadau i galendr ac amserlen yr ysgol yn ystod y flwyddyn, ond dylai hyn ddigwydd am resymau addysgiadol dilys, e.e. absenoldeb hirdymor aelod o staff neu ddatblygiadau addysgiadol pwysig. Ni ddylai newidiadau o'r fath ddigwydd yn aml.

Wrth wneud unrhyw newidiadau, mae'n bwysig ymgynghori â'r staff ac undebau, a diogelu staff rhag llwyth gwaith ychwanegol.

- Mae'n bwysig i ysgolion beidio â gwaethygu telerau ac amodau gwaith athrawon wrth baratoi polisi a chfundrefn ar gyfer Prin Gyflenwi. Gan ystyried holl waith ychwanegol gwirfoddol athrawon, a'r ffaith nad oes ganddynt yr hawl i ddewis eu gwyliau, mae'n bwysig parhau i ganiatáu absenoldebau am resymau personol pan fo angen.
- Sicrhau rheolaeth effeithiol o athrawon cyflenwi, gan ystyried eu hanghenion addysgu a datblygiadol; mae gan athrawon cyflenwi nad ydynt yn gyflogedig o ddydd i ddydd yr hawl *pro rata* i delerau ac amodau gwaith a fwynheir gan athrawon eraill yn yr ysgol

### **Dylai'r ysgol ddarparu ar gyfer athrawon cyflenwi:**

- cyfnod/pecyn ymsefydlu (*induction*) i'r ysgol gyda deunyddiau sy'n berthnasol i'w cyfnod cyflogaeth, e.e. manylion lechyd a Diogelwch perthnasol; trefn ddyddiol yr ysgol; llinellau cyfrifoldeb a phwy i droi ato os bydd problem yn codi; polisi rheoli ymddygiad/disgyblaeth; polisi amddiffyn plant yr ysgol; polisi marcio ac asesu; pwy sy'n gyfrifol am athrawon cyflenwi yn yr ysgol; cyfleodd am hyfforddiant; person cyswllt ar gyfer adolygu datblygiad proffesiynol neu ymsefydlu (os yn berthnasol)
- cynlluniau byr dymor a thymor canolig syml sydd hefyd yn diffinio'r disgwyliadau addysgu, yr adnoddau i'w defnyddio, y disgwyliadau ar gyfer y dosbarthiadau a'r gwaith cartref i'w osod
- gwybodaeth am allu a chyrhaeddiad disgyblion yn y dosbarth
- mynediad i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus i gynnal safonau eu gwybodaeth bynciol, addysgeg a rheoli ymddygiad

## **Crynodeb o Reolau Prin Gyflenwi**

### **Yn gyffredinol**

- Ni ddylid defnyddio athro yn yr ysgol ar gyfer unrhyw waith cyflenwi os oedd modd rhagweld yr absenoldeb
- Nid yw'n gyfreithlon i ddefnyddio athro i gyflenwi yn ystod cyfnod Cynllunio, Paratoi ac Asesu
- Mae rhannu dosbarth rhwng dosbarthiadau athrawon eraill yn cyfrif fel gwaith cyflenwi
- Nid oes cyfyngiad ar oriau cyflenwi athrawon sydd wedi'u cyflogi (yn bennaf neu'n gyfan gwbl) at bwrpas cyflenwi
- Mae hawl gwneud newidiadau i galendr ac amserlen yr ysgol yn ystod y flwyddyn am resymau addysgiadol dilys ac yn dilyn ymgynghoriad gyda'r staff a'r undebau. Dylid diogelu staff rhag llwyth gwaith ychwanegol

### **Cyflenwi mewn achos o salwch/absenoldeb annisgwyl**

- Ar y diwrnod cyntaf o absenoldeb annisgwyl, dylai'r ysgol ystyried pob cam posibl, a gwneud pob ymdrech i sicrhau nad oes angen i athro yn yr ysgol gyflenwi
- Os nad yw'n bosibl trefnu cyflenwi ar gyfer y wers/gwersi cyntaf, dylai fod yn bosibl gwneud trefniadau ar gyfer gweddill gwersi'r diwrnod
- O'r ail ddiwrnod o absenoldeb ymlaen, ni ddylai athro yn yr ysgol gyflenwi
- Dylid trefnu athrawon cyflenwi addas ar gyfer absenoldeb tymor canolig a chyflogi athro ar gytundeb dros dro am gyfnodau canolig ac absenoldeb hirach

### **Absenoldebau hir dymor eraill**

- Dylid cyflogi athrawon addas ar gytundeb dros dro, ymlaen llaw, ar gyfer absenoldebau hir dymor megis mamolaeth neu secondiad

### **Absenoldebau sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw**

- Pan fo digwyddiad wedi'i drefnu ymlaen llaw, ni ddylai athro yn yr ysgol gyflenwi

**I gael cyngor neu arweiniad pellach, cysyllter â'r Swyddog Maes perthnasol. Ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950 i gael sgwrs â:**

- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain ac Is-Ysgrifennydd Cyffredinol, [mererid@ucac.cymru](mailto:mererid@ucac.cymru)
- Jen Jones, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, [jen@ucac.cymru](mailto:jen@ucac.cymru)
- Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, [gareth@ucac.cymru](mailto:gareth@ucac.cymru)
- Roger Vaughan, Swyddog Maes y Gogledd, [roger@ucac.cymru](mailto:roger@ucac.cymru)
- Ywain Myfyr, Swyddog Maes, [ywain@ucac.cymru](mailto:ywain@ucac.cymru)

**Yn ogystal, mae modd cysylltu ag:**

- Ioan Rhys Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol, [ioan@ucac.cymru](mailto:ioan@ucac.cymru)
- Iona Davies, Swyddog Polisi, [iona@ucac.cymru](mailto:iona@ucac.cymru)

**Diweddarwyd: Gorffennaf 2024**



**UCAC**  
Undeb  
Cenedlaethol  
Athrawon  
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,  
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | [ucac@ucac.cymru](mailto:ucac@ucac.cymru)

 [facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru)  [twitter.com/AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)

[www.ucac.cymru](http://www.ucac.cymru)